

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 22 Gorffennaf 2021

Mrs Dana Jones

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Rheoli Datblygu, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Mercher, 28 Gorffennaf 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Materion Personol**
- 3. Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**
- 4. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021 (Tudalennau 3 - 6)**
- 5. Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor (Tudalennau 7 - 16)**
- 6. Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu (Tudalennau 17 - 50)**
- 7. Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig (Tudalennau 51 - 54)**
- 8. Apeliadau (Tudalennau 55 - 56)**
- 9. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Pwyllgor**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cofnodion cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd o bell drwy fideogynhadledd

ddydd Mercher, 14 Gorffennaf 2021

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Peter Davies MBE, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Clive Davies

Swyddogion yn bresennol: Mr Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu, Mrs Gwennan Jenkins, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r De, Mrs Ffion Lloyd – Cyfreithiwr, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democraidaidd, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democraidaidd a Swyddog Safonau.

(10:00am –11:00am)

1. Personol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof am yr Arglwydd Elystan Morgan a oedd wedi marw'n ddiweddar.

2. Ymddiheuriadau

Roedd y Cynghorwyr Ifan Davies, Paul Hinge, Catherine Hughes, Gwyn James a Lyndon Lloyd MBE wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddynt ddod i'r cyfarfod.

3. Datgan buddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu

Dim.

4. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 yn gywir.

Materion yn codi

Dim.

5. Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor

Dim.

6. Ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol

Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

A210230 Newid defnydd o C3 (annedd) i C4 (tŷ amlfeddiannaeth), 8 Bythynnod Gogerddan, Ffordd Penglais, Aberystwyth

CYMERADWYO'R cais yn ddibynnol ar amodau.

Tudalen 4

A210283 Codi dwy annedd, Lleiniau 16 ac 17 Clos y Gwyddil, y Ferwig, Aberteifi

CYMERADWYO'R cais yn ddibynnol ar amodau ac yn ddibynnol ar gytundeb cyfreithiol Adran 106 a fydd yn sicrhau swm gohiriedig o 10% yn gyfraniad at ddarparu tai fforddiadwy yn y sir, yn unol â darpariaeth polisi S05 y Cynllun Datblygu Lleol, gyda'r gwaith i gychwyn cyn pen 18 mis ar ôl dyddiad rhoi'r caniatâd.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y swyddogion ac roeddent yn tybio bod modd cymeradwyo'r cais am y rhesymau a ganlyn:-

- Nid oedd datblygiadau eraill ar y gweill yn yr anheddiad cyswllt
- Rhoddwyd caniatâd gwreiddiol dros ddeng mlynedd yn ôl ac fe godwyd 15 annedd; deg ar gyfer y farchnad agored a phum annedd fforddiadwy, sef 50% o'r datblygiad. Roedd y gyfran hon yn fwy na'r ddarpariaeth tai fforddiadwy sy'n ofynnol fel arfer
- Roedd yr ystad hon yn ddelfrydol, gyda lle i ddwy annedd a fyddai'n cwblhau'r safle
- Mae'r Aelod Lleol a Chyngor Cymuned y Ferwig yn cefnogi'r cais
- Ni ddylid rhoi cymaint o bwyslais ar y sylwadau dienw gan drydydd partiön a gyflwynwyd ar dudalen 14 o'r adroddiad; ac mae un gwrthwynebydd yn gwrthwynebu oherwydd y bydd yn colli'r golygfeydd, ac nid yw hon yn ystyriaeth gynllunio sylweddol
- Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan y Gwasanaethau Prifffyrdd, Draenio Tir nac Ecoleg, Cyfoeth Naturiol Cymru, Diogelu Mwynau, na Dŵr Cymru, ac roedd yr adran honno o adroddiad y swyddog a oedd yn ymwneud ag amwynder preswyl ar dudalennau 15/16 yn eithriadol o gadarnhaol ac yn datgan y tybir bod y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol yn ôl maen prawf 7 polisi DM06 y Cynllun Datblygu Lleol
- Roedd yr unig wrthwynebiad yn seiliedig ar niferoedd a chanrannau ac, oherwydd y newid o ran anghenion a phroblemau tai'r sir, gan gynnwys ffosffadau yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi, roedd yr Aelodau'n tybio bod modd iddynt gefnogi'r cais hwn
- Roedd nifer o ddadleuon perthnasol dros gefnogi'r cais yn groes i strategaeth dai'r Cynllun Datblygu Lleol, a gellir gweld y rhain ar dudalennau 16/17. Yn gryno, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-
 - Mae dros wyth mlynedd wedi mynd heibio ers y penderfyniad apêl ac mae'r sefyllfa dai wedi newid
 - Adeiladwyd yr ystad mewn dau gam, gyda'r naill gam a'r llall wedi'u cwblhau'n gyflym i ateb galwadau'r farchnad
 - Roedd y tai o ansawdd uchel
 - Mae'r ystad wedi'i lleoli mewn anheddiad cyswllt diffiniedig ac mewn lleoliad cynaliadwy yn y pentref
 - Bydd y datblygiad yn dod â thair newydd am bris rhesymol i'r farchnad yn y Ferwig, a hynny gan ddatblygwr lleol dibynadwy sy'n cyflogi gweithwyr lleol
 - Mae cryn alw am gartrefi â phedair ystafell wely yn yr ardal, a'r rheini ar gael i deuluoedd lleol, felly gwnaed y cais hwn mewn ymateb i'r galw hwnnw. Nid yw pawb am fyw yn y dref, felly mae'n bwysig bod pobl yn gallu dewis ble i fyw
 - Ni fydd yn effeithio'n negyddol ar y datblygiad oherwydd bydd yn defnyddio'r seilwaith a'r gwasanaethau sydd yno eisoes

Tudalen 5

- Roedd asiant yr ymgeisydd wedi cadarnhau bod yr ymgeisydd yn barod i ymrwmo i gytundeb adran 106 i ddarparu swm gohiriedig o 10% a fyddai'n swm sylweddol
 - Bydd hwn yn gyfle gwyh i orffen adeiladu'r ystad ddelfrydol hon ym mhentref y Ferwig, datblygiad a ddechreuwyd rhyw 11 mlynedd yn ôl.
-

7. **Ceisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-**

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

8. **Apeliadau cynllunio**

CYTUNWYD i nodi'r apeliadau cynllunio a oedd wedi dod i law.

Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021

Cadeirydd:- _____


Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

1. Gohiriwyd/Deferred

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A200862	09-10-2020	Mr S Lewis	Erection of a Dwelling	Tycoch, Trefenter, Aberystwyth, SY23 4HE	Refuse

1.1. A200862



Pwyllgor / Committee

Rhif y Cais / Application Reference	A200862
Derbyniwyd / Received	09-10-2020
Y Bwriad / Proposal	Erection of a Dwelling
Lleoliad Safle / Site Location	Tycoch, Trefenter, Aberystwyth, SY23 4HE
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr S Lewis, Tycoch, Trefenter, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4HE
Asiant / Agent	Mr Robert Thomas (Thomas Login Architecture), Plas Y Berllan, Ffostrasol, Llandysul, Ceredigion, SA44 4TE

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae safle'r cais yn rhan o gae amaethyddol sy'n ffinio'n uniongyrchol i'r gogledd ag eiddo Tycoch Villa sy'n wynebu ffordd y B4576 rhyw 2.5km i'r de o bentref Llangwryfon. Mae datblygiadau preswyl yn y lleoliad hwn yn wasgaredig; mae pedwar eiddo yn yr ardal gyfagos a'r eiddo agosaf (ar wahân i Dycloch Villa) rhyw 110m i ffwrdd.

Mae safle'r cais yn wastad ac wedi'i nodweddu gan glawdd aeddfed y tu blaen wrth y briffordd a thir amaethyddol agored i'r gogledd a'r gorllewin.

Ni chyflwynwyd ceisiadau cynllunio blaenorol mewn perthynas â'r darn hwn o dir yn benodol.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Cais llawn yw hwn ac mae'n ceisio caniatâd cynllunio i godi annedd ar y farchnad agored.

Mae'r cynlluniau yn dangos darpariaeth ar gyfer tŷ mawr, pedair ystafell wely â garej ddwbl ar y tir. Mae'r eiddo ynghyd â phortsh/darn aml-bwrpas ar yr ochr yn rhyw 18m o hyd, 14m o led ag iddo do talcen slip.

Mae'r llawr gwaelod yn rhoi llety ar gyfer lolfa, stydi, cegin/ystafell fwyta fawr, cynllun agored ac ystafell gefn, ystafell aml-bwrpas a thoiled lawr grisiau. Mae'r llawr cyntaf yn darparu ar gyfer pedair ystafell wely, dau *en-suite* ac ystafell wisgo y gellir cerdded i mewn iddi, ystafell ymolchi, landin oriel a mynediad i ardal falconi y tu allan.

Defnyddir yr un deunyddiau i godi'r tŷ a'r garej, a'u rendro â gwaith brics a tho o lechi naturiol. Bwriedir cael mynediad newydd i gerbydau o'r is-ffordd (ffordd B) a rhoi tanc carthion/cyfleuster trin carthion ar gyfer y dŵr brwnt.

POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae polisïau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn:

DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel

DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy

DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol

DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol

DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

S01 Twf Cynaliadwy

S04: Datblygu Mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'

S05 Tai Fforddiadwy

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau

Tudalen 10

amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hynny ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gall, yn rhesymol, i atal troseddau ac anhrefn. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd hon wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd mawr nac annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dynodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig' sef oedran; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r uchod wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt yn fwy nag ar unrhyw un arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth ymarfer ei swyddogaethau i gwrdd â'r saith nod llesiant sy'n rhan o'r Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

YMATEB I'R YMGYNGHORI

Priffyrdd Ceredigion - Dim gwrthwynebiad yn ddibynnol ar amodau.

Draenio Ceredigion - Sylwadau

Dŵr Cymru/Welsh Water - Dim sylwadau

CASGLIAD

Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

Mae'r cais yn ceisio caniatâd cynllunio i godi annedd fawr ar y farchnad agored mewn cefn gwlad agored.

Egwyddor Datblygu

Ar hyn o bryd, mae safle'r cais yn rhan o gae amaethyddol y mae'r eiddo cyfagos, Tycoch Villa, yn berchen arno. Fe'i lleolir mewn cefn gwlad agored rhyw 2.5km i'r de o Langwryfon. Ar wahân i Dycoch Villa ei hun, tyddyn â llai na 5 hectar, mae'r annedd breswyl agosaf rhyw 110m i ffwrdd. Y polisi allweddol sy'n berthnasol wrth ystyried y cais hwn yw S04 sy'n mynd i'r afael â chynigion datblygu mewn "aneddiadau cyswllt a lleoliadau eraill".

Mae'r polisi yn cymryd Polisi Cynllunio Cymru i ystyriaeth yn y ffaith y dylai'r datblygiad fod wedi'i leoli o fewn ac yn ffinio â'r aneddiadau hynny lle y gellir darparu orau ar ei gyfer o ran seilwaith, mynediad a chynefinoedd a thirweddau cadwraeth. Gall mewnlenwi neu roi estyniadau bach ar aneddiadau sy'n bodoli fod yn dderbyniol, yn enwedig lle y mae'n bodloni'r angen am dai fforddiadwy yn lleol, ond mae'n rhaid i adeiladu o'r newydd mewn cefn gwlad agored i ffwrdd o aneddiadau sy'n bodoli neu ardaloedd a neilltuwyd ar gyfer datblygu mewn cynlluniau datblygu barhau i gael eu rheoli'n llym.

Mae Polisi S04 y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio rheoli ymlediad datblygiadau preswyl mewn 'lleoliadau eraill' drwy ganiatáu anheddau newydd dim ond lle y bo angen y gellir ei gyfiawnhau o ran mentrau gwledig neu lle y bo gofyn ar sail angen na chafodd ei ddiwallu am dai fforddiadwy.

Nid yw'r ymgeisydd yn honni bod angen yr annedd ar gyfer menter wledig nac ar sail annedd fforddiadwy. Oherwydd hynny, yna ystyrir bod y cynnig yn gais i godi annedd ar y farchnad agored.

Tudalen 11

Felly, y farn yw bod y cynnig yn gwrthdaro â pholisïau S01, S04 a S05 y Cynllun Datblygu Lleol ac mae mewn safle maes glas y tu allan i unrhyw anheddiad neu nid o fewn ffurf adeiledig.

Effaith ar y Dirwedd a Chymeriad yr Ardal

Mae'r cynlluniau yn dangos darpariaeth tŷ deulawr mawr iawn ag iddo garej ddwbl mewn lleoliad yng nghefn gwlad agored. Dadleuir bod dyluniad yr adeilad yn ymddangos yn fwy trefol na gwledig a fyddai'n gwrthdaro â chymeriad gwledig yr ardal. Y farn yw y bydd annedd fawr mewn cefn gwlad agored, heb gyswllt o ran cymeriad ag eiddo cyfagos, yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr ardal, ac yn ychwanegiad anghyson i'r dirwedd.

Ystyriaethau Perthnasol Eraill

Nodir nad oes gwrthwynebiadau i'r cynnig o safbwynt priffyrdd, draenio a'r trefniadau ar gyfer dŵr brwnt.

Fodd bynnag, nid yw'n gwrthbwysu'r gwrthwynebiad polisi i'r cynnig.

Canlyniad

I grynhoi, mae darpariaeth annedd fawr na ellir ei chyfiawnhau yn y lleoliad hwn yn gwbl groes i egwyddorion datblygu cynaliadwy a bydd yn arwain at ffurf annerbyniol o ddatblygu mewn cefn gwlad agored. Mae'r cynnig yn groes i bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol.

AWDURDOD DIRPRWYEDIG

Mae'r Cynghorydd R Rees-Evans, yr Aelod Lleol, wedi datgan buddiant yn y cais ac felly cyflwynir y cais i'r Pwyllgor Rheoli Datblygiad i'w ystyried am y rheswm hwnnw'n benodol.

RHESWM AM OHIRIO:

Adroddwyd y cais i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gyfarfu ar 9 Mehefin, 2021.

Er gwaethaf argymhelliad i wrthod y cais, penderfynodd y Pwyllgor ohirio'r cais er mwyn galluogi swyddogion i ystyried gwybodaeth ddiweddar a gyflwynwyd gan yr asiant. Nodwyd bod yr ymgeisydd yn dymuno i'r cais gael ei ystyried ar sail annedd fforddiadwy ac nid annedd marchnad agored. Cyflwynodd yr ymgeisydd ddatganiad tai fforddiadwy ynghyd â chynlluniau diwygiedig a oedd yn gostwng arwynebedd llawr mewnol yr annedd arfaethedig i oddeutu 165m².

Nododd y datganiad tai fforddiadwy y byddai pris yr annedd arfaethedig oddeutu £250,000 a bod gan yr ymgeisydd gyllideb adeiladu oddeutu £175,000. Nododd y datganiad hefyd nad oedd unrhyw anheddau ar gael ar y farchnad yn yr ardal gyfagos am y pris hwnnw ac oedd yn cwrdd â'r diffiniad o gartref fforddiadwy.

Ychwanegodd y datganiad bod hi'n amlwg bod angen am anheddau 3 ystafell gwely yn y sir a byddai darparu cartref fforddiadwy tair ystafell wely yn cynorthwyo i ddarparu ar gyfer y diffyg a nodwyd er gwaetha bod y cynnig yn groes i strategaeth dai'r CDLI.

Er gwaethaf y gostyngiad ym maint yr uned a chanfyddiadau'r Datganiad Tai Fforddiadwy, mae'r cynnig yn dal yn groes i'r polisi cenedlaethol a lleol gan fod safle'r cais nid o fewn anheddiad nac yn gyfagos iddo. Nid yw'r cynnig yn goresgyn y gofyniad i'r datblygiad gael ei leoli'n gynaliadwy. Mae PPW a TAN 2 yn nodi y dylai safleoedd eithriad gwledig ar gyfer tai fforddiadwy fod ar dir o fewn aneddiadau gwledig presennol neu'n gyfagos iddynt.

Fel y dywedwyd eisoes, ystyrir bod y cais mewn lleoliad cefn gwlad agored gyda datblygiad preswyl achlysurol o bedwar tŷ yn yr ardal gyfagos. Barn yr Adran yw y gellir disgrifio'r safle'n well fel casgliad rhydd o adeiladau heb gymeriad anheddiad cydlynol. Mae'r safle gryn bellter i'r anheddiad diffiniedig agosaf o Langwryfon. Ni fyddai'r cynnig yn cael ei leoli yn union wrth ymyl grwpiau presennol o anheddau yn unol ag S04 ac ni fyddai'n gysylltu yn dda ag anheddiadau nac yn cynnwys cyfle mewnlenni nac estyniad i grŵp presennol yn unol â PCC. Byddai'r cynnig hefyd yn achosi niwed sylweddol i gymeriad ac ymddangosiad y wlad o gwmpas.

O'r herwydd, y farn yw bod y cynnig yn gwrthdaro â pholisïau S01, S04 ac S05 y CDLI gan ei fod mewn safle maes glas y tu allan i unrhyw anheddiad neu tu allan i unrhyw ffurf adeiledig.

ARGYMHELLIAD:

Gwrthod y cais am fod yn anghydwydd â polisi cenedlaethol a lleol.

Tudalen 12

Rhif y Cais / Application Reference	A200862
Derbyniwyd / Received	09-10-2020
Y Bwriad / Proposal	Erection of a Dwelling
Lleoliad Safle / Site Location	Tycoch, Trefenter, Aberystwyth, SY23 4HE
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr S Lewis, Tycoch, Trefenter, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4HE
Asiant / Agent	Mr Robert Thomas (Thomas Login Architecture), Plas Y Berllan, Ffostrasol, Llandysul, Ceredigion, SA44 4TE

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site is part of an agricultural field directly adjoining to the north the property of Tŷ Coch Villa which fronts onto the B4576 road approx 2.5km to the south of the village of Llangwryfon. Residential development at this location is sporadic with four properties in the immediate area with the nearest property (apart from Tŷ Coch Villa) being around 110m away.

The application site is level and characterised by mature hedgebank fronting the highway and by open agricultural land to the north and west.

No previous planning applications have been made on this particular parcel of land.

DETAILS OF DEVELOPMENT

The application is in full and seeks planning permission for the erection of an open market dwelling.

The plans show the provision of a large four bedroomed house with a detached double garage within the grounds. The property together with a side utility / porch is approx 18m long, 14m wide and has a hipped roof.

The ground floor provides accommodation for a lounge, study, large open plan kitchen / dining area with snug and an utility and downstairs toilet area. The first floor accommodates four bedrooms, two en-suites, a walk through dressing room, a bathroom, gallery landing and access to an outside balcony area.

Both the house and the garage are to be constructed of the same materials, being rendered with brick detailing and roofed with natural slates. A new vehicular access from the B road is proposed and foul water is to be served by a septic tank / treatment plant.

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

Mae'r polisïau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:: / These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

DM06 High Quality Design and Placemaking

DM13 Sustainable Drainage Systems

DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity

DM15 Local Biodiversity Conservation

DM17 General Landscape

S01 Sustainable Growth

S04 Development in Linked Settlements and Other Locations

S05 Affordable Housing

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

Ceredigion Highways - No objection subject to conditions.

Ceredigion Drainage - Comments

DC/WW - Comments

CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

The application seeks planning permission for the erection of a large open market dwelling in an open countryside location.

The Principle of Development

The application site is currently part of an agricultural field which belongs to the neighbouring property of Tŷ Coch Villa which is located in an open countryside location some 2.5km to the south of Llangwryfon. Apart from Tŷ Coch Villa itself, which is a small-holding with less than 5 hectares, the nearest residential dwelling is approx 110m away. As such the key policy relating to the consideration of this application is S04 which deals with development proposals in 'linked settlements and other locations'.

The policy takes account of Planning Policy Wales in that the development should be located within and adjoining those settlements where it can be best be accommodated in terms of infrastructure, access and habitat and landscape conservation. Infilling or minor extensions to existing settlements may be acceptable, in particular where it meets a local need for affordable housing, but new building in the open countryside away from existing settlements or areas allocated for development in development plans must continue to be strictly controlled.

Policy S04 of the LDP seeks to control the proliferation of residential development in 'other locations' by permitting new dwellings only where there is a justifiable rural enterprise need or is required on unmet affordable need basis.

Tudalen 14

No claim has been made by the applicant that the dwelling is required as a rural enterprise dwelling or on the basis of an affordable dwelling. As that is the case then the proposal is considered as an application for the erection of an open market dwelling.

As such then it is the opinion that the proposal is in conflict with policies S01, S04 and S05 of the LDP as it is in a greenfield site outside of any settlement or not within any built form.

Impact on the Landscape and Character of the Area

The plans show the provision of a very large two storey house with a detached double garage in an open countryside location. It is argued that the design of the building has more of an urban rather than rural appearance which would be in conflict with the rural character of the area. It is the opinion that a large dwelling in an open countryside location with no link in character with any nearby properties will detrimentally impact the character of the area, constituting an incongruous addition on the landscape.

Other Material Considerations

It is noted that there are no objections to the proposal from a highway, drainage and foul water arrangement perspective. However, it does not outweigh the policy objection to the proposal.

Outcome

To conclude, the provision of an unjustified large dwelling at this location is completely contrary to the principles of sustainable development and will result in an unacceptable form of development in the open countryside. The proposal is contrary to both national and local planning policy.

DELEGATED AUTHORITY

Cllr R Rees-Evans, the local Member, has declared an interest in the application and therefore the application is presented to the Development Control Committee for consideration for that particular reason.

REASON FOR DEFERRAL

The application was reported to the Development Control Committee which met on the 9th of June, 2021.

Despite a recommendation to refuse the application the Committee resolved to defer the application in order for officers to consider recent information submitted by the agent. It was noted that the applicant wished the application to be considered on the basis of an affordable dwelling and not an open market dwelling. The applicant submitted an affordable housing statement together with amended plans which reduced the internal floor area of the proposed dwelling to approx 165m².

The affordable housing statement indicated that the valuation of the proposed dwelling would be in the region of £250,000 and that the applicant had a build budget of around £175,000. The statement states that there are no dwellings available on the market in the immediate area at around that price mark and which meets the definition of an affordable home.

The statement adds that there is clearly an identified need for 3 bed dwellings in the County and the provision of a three bed affordable home will assist to cater for the identified shortfall irrespective of the proposal being contrary to the LDP's housing strategy.

Notwithstanding the reduction in the size of the unit and the findings of the Affordable Housing Statement the proposal is still contrary to both national and local policy in that the application site is not within or even adjoining a settlement. The proposal does not override the requirement for the development to be sustainably located. PPW and TAN 2 states that rural exception sites for affordable housing should be on land within or adjoining existing rural settlements.

As stated previously, the application is considered to be in an open countryside location with a sporadic residential development of four houses in the immediate area. It is the opinion that the site would be best described as being a loose collection of buildings with no cohesive settlement character. The site is some distance to the nearest defined settlement of Llangwryfon. The proposal would not be located immediately adjacent to existing groups of dwellings in accordance with S04 and it would not be well-related to a settlement or consist of an infill opportunity or extension to an existing group in accordance with PPW. The proposal would also cause material harm to the character and appearance of the surrounding countryside.

As such, it is the opinion that the proposal is in conflict with policies S01, S04 and S05 of the LDP as it is in a greenfield site

Tudalen 15

outside of any settlement or not within any built form.

RECOMMENDATION:

Refuse the application as being contrary to both national and local policy.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

2. Prif Eitemau/Main Items

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A201067	11-12-2020	(Wales and West Housing Association)	Hybrid planning application comprising: A) Outline planning application with all matters reserved (except those included in full application below) for residential development to be developed in phases and associated works; B) Full application for residential development and associated works including public open space/play provision, a new spine road from Cefnesgair to Waunfawr Road, engineering and drainage arrangements, ecological mitigation, landscaping and associated works	Land adjoining Hafan Y Waun, Waunfawr, Aberystwyth. SY23 3AY	Approve Subject to Conditions
2	A210062	21-01-2021	Mr Patrick Chambers (Full Parks Ltd)	Application for the siting of 8 holiday self-catering lodges together with access road, landscaping measures and associated works.	Land west of Penrallt Hotel, Aberporth, SA43 2BS	Approve Subject to Conditions
3	A210077	25-01-2021	Mr Rhys Norrington-Davies	Demolition of existing stables building and erection of a residential dwelling, including parking, landscaping and ancillary works	Land at Tyn-y-Cae, Talybont, SY24 5EA	Refuse

2.1. A201067



Pwyllgor / Committee**Rhif y Cais /****Application Reference** A201067**Derbyniwyd / Received** 11-12-2020**Y Bwriad / Proposal**

Hybrid planning application comprising: A) Outline planning application with all matters reserved (except those included in full application below) for residential development to be developed in phases and associated works; B) Full application for residential development and associated works including public open space/play provision, a new spine road from Cefnesgair to Waunfawr Road, engineering and drainage arrangements, ecological mitigation, landscaping and associated works

Lleoliad Safle / Site Location

Land adjoining Hafan Y Waun, Waunfawr, Aberystwyth. SY23 3AY

Math o Gais / Application Type

Full Planning

Ymgeisydd / Applicant

(Wales and West Housing Association), Wales & West Housing Association, Cwrt Y Llan Church Lane, Newcastle Emlyn, SA38 9AB

Asiant / Agent

Mr Dylan Green (Asbri Planning), Asbri Planning Ltd, Unit 9, Oak Tree Court, Mulberry Drive, Cardiff Gate Business Park, Cardiff, CF23 8RS

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae safle'r cais yn ddarn o dir sy'n gyfanswm o 3.42 hectar wedi'i leoli yn ardal Waunfawr, Aberystwyth. Mae'r safle i'r gorllewin o Riw Briallu ac i'r gogledd o ystâd Cefnesgair sy'n rhedeg ar hyd ei ffin ddeheuol. Mae Ffordd Waunfawr yn rhedeg yn gyfochrog â ffin ogleddol y safle gydag eiddo preswyl yng Nghefnesgair ac Erw Goch wedi'u lleoli i'r gorllewin, tra bod y cartref gofal dementia Hafan y Waun wedi'i leoli i'r dwyrain o'r safle.

Ar hyn o bryd mae'r safle yn ddarn o dir maes glas heb ei ddatblygu yn llawn gweiriau tal a llystyfiant garw. Yn hanesyddol defnyddiwyd rhan o'r safle fel cae pêl-droed; fodd bynnag, mae hyn wedi gordyfu erbyn hyn. Mae'r coed ar y safle wedi'u lleoli ar y ffin neu'n agos ati. Nid oes unrhyw adeiladau nac adeileddau ar safle'r cais. Ceir mynediad amaethyddol o Riw Briallu ar hyd ei ffin ddwyreiniol. Nid yw unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus yn rhedeg trwy'r safle nac yn cydffinio'r safle.

Mae'r safle wedi'i leoli mewn ardal breswyl yn bennaf gyda phrif gorff Waunfawr i'r gogledd o'r safle a Llanbadarn Fawr ymhellach i'r de. Mae'r safle wedi'i leoli yng Ngrŵp Aneddiadau Aberystwyth / Llanbadarn Fawr / Waunfawr / Penparcau sy'n Ganolfan Gwasanaethau Trefol fel y'i diffinnir gan Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDLI). Mae'r safle cyfan wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad preswyl (cyf. H0303) o fewn CDLI mabwysiedig presennol Ceredigion ac wedi'i nodi yn safle a all ddarparu lle ar gyfer cyfanswm o 129 o anheddau preswyl.

Ar wahân i un cais i osod ceblau ffibr optig ar y safle hwn yn 1995, ni fu unrhyw geisiadau cynllunio ar y safle hwn.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae hwn yn gais hybrid ar gyfer datblygiad preswyl y safle.

Mae Rhan A, sef rhan amlinellol y cynnig (gyda'r holl faterion a gedwir yn ôl), yn ceisio caniatâd ar gyfer datblygiad preswyl i'w adeiladu fesul cam a gwaith cysylltiedig.

Rhan B yw rhan lawn y cais ac mae'n ceisio caniatâd ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig gan gynnwys man agored cyhoeddus / darpariaeth chwarae, ffordd gefnol newydd o Gefnesgair i Ffordd Waunfawr, trefniadau gwaith peirianyddol a draenio, mesurau lliniaru ecolegol, tirlunio a gwaith cysylltiedig.

Mae'r safle sy'n destun y cais cynllunio llawn wedi'i leoli i'r de, ond mae'r tir amlinellol wedi'i leoli i'r gogledd, er nad oes ffin ffisegol rhwng y ddau.

Mae elfen amlinellol y safle yn cynnig oddeutu 37 annedd gyda'r paramedrau graddfa canlynol:

Lled 5m (isafswm) 12m (uchafswm)

Uchder 2.1m (isafswm) 5m (uchafswm) (crib 10m)

Dyfnnder 6m (isafswm) 12m (uchafswm)

Tudalen 20

Bydd y swm, y raddfa a'r cynllun yn cael eu penderfynu mewn unrhyw geisiadau materion a gedwir yn ôl a gyflwynir yn y dyfodol.

Mae rhan lawn y cais yn ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu 28 o unedau breswyl fforddiadwy a 12 fflat o fewn uned anawsterau dysgu arbenigol. Mae'r cymysgedd tai arfaethedig fel a ganlyn:

Fflat (uned anawsterau dysgu) 1 ystafell wely

Fflat 2 ystafell wely – Lleiniau 1, 2, 11 a 12

Byngalo 1 ystafell wely – Lleiniau 19 a 20

Tŷ pâr perchentyaeth cost isel 2 ystafell wely – Lleiniau 25, 26, 27 a 28

Tŷ pâr 2 ystafell wely – Lleiniau 5, 6, 9, 10, 15, 16, 17, 18, 21, 22, 23 a 24

Tŷ pâr 3 ystafell wely – Lleiniau 3, 4, 7, 8, 13 ac 14

Er bod elfen lawn y cynnig yn cynnwys 40 o anheddau, bydd yr ardal amlinellol ehangach hefyd yn gallu darparu lle ar gyfer hyd at 37 o anheddau ynghyd â'r draeniad a'r seilwaith ffyrdd cysylltiedig â'r ardal man agored wedi'i gwella. Nid yw rhan fawr o'r dyraniad tai a leolir i'r de-ddwyrain o'r safle wedi'i chynnwys o dan y cais cynllunio hybrid hwn ac wedi'i chadw yn ôl ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Felly, mae'r cais hybrid yn cynnig darparu oddeutu 77 o anheddau gyda datblygiad preswyl pellach i'w ddarparu ar dir cydffiniol, yn unol â'r dyraniad tai.

Mae'r cynnig yn cynnwys cymysgedd o fyngalos, fflatiau a thai pâr ac felly ceir amrywiaeth o ran nifer y lloriau. Bydd yr unedau byngalo yn adeiladau unllawr a bydd gweddill yr eiddo, gan gynnwys yr uned anawsterau dysgu yn adeiladau deulawr.

Mae'r cynnig yn cynnwys dau brif bwynt mynediad wedi'u lleoli i'r ffin ogledd-ddwyrain yn union oddi ar y briffordd sy'n teithio trwy Waunfawr ac i'r de-orllewin oddi ar Gefn Esgair. Mae'r pwyntiau mynediad wedi'u cysylltu gan y briffordd fewnol sy'n teithio'n ganolog trwy'r safle o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain. Mae'r ffordd gefnol hon wedi'i chynnwys yn y cais cynllunio llawn.

Mae'r cynllun a gynigir o dan y cais llawn yn cynnwys y gerbyttfordd ganolog ac yn ymgorffori ardaloedd o fannau agored at ddefnydd hamdden. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys buddion cymunedol gan gynnwys man chwarae wedi'i wella, ardaloedd a choridorau ecolegol / cynefinoedd i warchod cynefinoedd presennol a gwella bioamrywiaeth yr ardal.

O ran deunyddiau, bydd yr adeiladau'n cael eu codi trwy ddefnyddio rendr wedi'i baentio'n llyfn yn bennaf gyda chladin pren a tho llechi ffibr sment.

Sylwer, cyn cyflwyno'r cais cynllunio cafodd ymarfer Ymgynghori Cyn-ymgeisio gorfodol ei gynnal.

POLISIŌU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisi Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol

Tudalen 21

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021)

Polisi Cynllunio Lleol Perthnasol:

Mae'r polisïau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg

DM03 Teithio Cynaliadwy

DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel

DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy

DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol

DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol

DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

LU02 Gofynion sy'n Ymwneud â Phob Datblygiad Preswyl

LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai

LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai

LU06 Dwysedd Tai

LU22 Darpariaeth Gymunedol

LU24 Darparu Mannau Agored Newydd

S01 Twf Cynaliadwy

Tudalen 22

S02 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol

S05 Tai Fforddiadwy

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar ei ardal, a'r angen i wneud popeth y mae'n rhesymol iddo ei wneud i atal trosedd ac anhrefn yn ei ardal. Cafodd y ddyletswydd hon ei hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Bernir na fyddai unrhyw gynnydd arwyddocaol neu annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau effaith yr anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ateb anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill os yw'r nifer sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth benderfynu'r cais hwn. Bernir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn creu unrhyw oblygiadau arwyddocaol, neu effaith, ar bobl sydd â nodwedd warchoddedig, yn fwy nag unrhyw unigolyn arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi wrth ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y nodwyd yn Neddf 2015. Wrth wneud yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain.

YMATEBION YMGYNGHORI

LIC (Yr Adran Drafnidiaeth) – Nid yw Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd yr A487 a'r A44 yn rhoi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn.

Draeniad Tir Ceredigion – Dim gwrthwynebiad / sylwadau

Tudalen 23

Dŵr Cymru / Welsh Water – Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amodau

Priffyrdd Ceredigion – Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amodau

Cyfoeth Naturiol Cymru – Dim gwrthwynebiad

Cyngor Cymuned Y Faenor Community Council – Dim gwrthwynebiad ond gofynnir i ddarpariaeth ar gyfer rhandiroedd gael ei chynnwys yn y cynlluniau ynghyd â mannau parcio dynodedig; ni fydd y Cyngor Cymuned yn rhoi unrhyw warant mewn perthynas â pherchnogaeth a rheolaeth o'r man agored cyhoeddus yn y dyfodol; a gofynnir na fydd unrhyw darfu ar y seilwaith trafniadaeth lleol yn ystod cam adeiladu'r datblygiad.

O ran gohebiaeth trydydd parti, nodir y derbyniwyd cyfanswm o 152 o wrthwynebiadau gan gynnwys gan Gyngor Cymuned Llanbadarn Fawr, y Cyngorydd Gareth Davies (Llanbadarn Fawr), y Cyngorydd Matthew Woolfall Jones (Llanbadarn Fawr – Sulien), Ben Lake AS, Elin Jones AC a Tomos ap Cadan (Ymgeisydd Etholiadol y Democratiaid Rhyddfrydol Senedd Cymru 2021). Prif sail y gwrthwynebiadau oedd:

- Colli man gwyrdd;
- Effaith niweidiol ar fywyd gwyllt lleol;
- Effaith niweidiol ar ddiogelwch priffyrdd nid yn unig o gwmpas y safle ond hefyd yn Llanbadarn Fawr ei hun;
- Pryderon ynghylch dŵr wyneb a llifogydd yn yr ardal a'r cyffiniau;
- Dim galw am dai ychwanegol yn Aberystwyth;
- Y cais wedi cael ei wthio drwodd;
- Dylid darparu tai mewn mannau eraill yn hytrach nag ar y safle maes glas hwn;
- Y tir yn anaddas ar gyfer datblygiad preswyl;
- Safle'r cais yn ddarostyngedig i gais statws maes pentref;
- Y system garthffos bresennol ddim yn gallu gwasanaethu'r datblygiad arfaethedig;
- Bydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg;
- Cyfamod yn bodoli ar y tir sy'n cyfyngu ar y defnydd ohono;
- Y CDLI wedi dyddio a'r ffigurau tai yn amherthnasol.

CASGLIAD

Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: "Os yw'r cynllun datblygu i'w ystyried at ddiben unrhyw benderfyniad sydd i'w wneud o dan y Deddfau Cynllunio, rhaid i'r penderfyniad fod yn unol â'r cynllun oni bai bod ystyriaeth berthnasol yn nodi fel arall".

Egwyddor y Datblygiad

Cais hybrid yw hwn ar gyfer datblygiad preswyl o dir yn ardal Waunfawr, Aberystwyth. Mae rhan amlinellol y cynnig yn ceisio caniatâd ar gyfer egwyddor y datblygiad i adeiladu 37 o anheddau ym mhen gogleddol y safle tra bo rhan lawn y cais yn ceisio caniatâd i adeiladu 40 o unedau, gyda chymysgedd o 28 o unedau fforddiadwy a 12 fflat i'w defnyddio gan bobl ag anawsterau dysgu, ynghyd â phrif ffordd yr ystâd a gwaith cysylltiedig arall, gan gynnwys man agored dynodedig.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn nodi Aberystwyth / Llanbadarn Fawr / Waunfawr fel Canolfan Gwasanaethau Trefol lle mae'r Awdurdod yn dymuno gweld 51% o'r cyfanswm twf tai ar gyfer yr Awdurdod dros gyfnod y cynllun yn cael ei gyflawni. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r rôl hon, mae safle'r cais wedi ei neilltuo'n ffurfiol yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion o dan gyfeirnod H0303 ar gyfer tai cyffredinol gydag elfen o unedau fforddiadwy. Mae'r dyraniad yn nodi y bydd y

Tudalen 24

safle 4.15 hectar hwn yn creu oddeutu 129 o unedau preswyl gyda 25.8 o unedau yn rhai fforddiadwy yn unol â'r gofyniad 20% a nodir ym mholisi S05 y CDLI. Mae'r dyraniad yn nodi y dylai unrhyw ddatblygiad gael ei gynllunio mewn ffordd sensitif o fewn lleoliad naturiol y safle, a dylai'r dyluniad fod o safon uchel. Felly, yn wyneb ei ddynodiad ffurfiol mae'r egwyddor o ddatblygiad preswyl ar y safle cyfan eisoes wedi'i sefydlu'n gadarn.

Mae Polisi S01 y CDLI sy'n cwmpasu Twf Cynaliadwy yn nodi y bydd twf yn canolbwyntio ar ddarparu cymunedau cryfach a mwy cynaliadwy a chyflawnir hyn trwy ddarparu cyfleoedd i ddatblygu. Wrth wireddu'r twf hwn, mae amgylchedd ac adnoddau'r sir yn cael eu gwarchod a'u gwella.

Mae Polisi S02 y CDLI yn delio â Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol ac yn cefnogi datblygiadau tai yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol ar safleoedd a neilltuwyd hyd at lefel y ddarpariaeth tai a nodir ar gyfer y grŵp aneddiadau, ac ar yr amod ei fod yn unol â dynodiad Datganiad y Grŵp Aneddiadau ac yn bodloni holl bolisiâu eraill y Cynllun. Mae'r cais wedi'i leoli o fewn ffin anheddiad Aberystwyth / Llanbadarn Fawr / Waunfawr ac mae wedi'i neilltuo (o dan gyfeirnod H0303) yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion ar gyfer datblygiad preswyl. Ar adeg ysgrifennu, mae mwy na chapasiti digonol yn y dyraniad tai ar gyfer y Grŵp Aneddiadau i ddarparu ar gyfer y datblygiad.

Mae'r dyraniad yn nodi y byddai tua 129 o unedau yn cael eu codi ar y safle a bod 25.8 o'r cyfanswm unedau yn fforddiadwy. Mae hyn yn rhoi dwysedd gros arweiniol o 50 o unedau fesul hectar ar gyfer y safle. Fodd bynnag, mae'r cais hwn yn ceisio caniatâd ar gyfer cyfanswm cyfunedig o 77 sy'n llawer llai na'r hyn a awgrymir yn y dyraniad dynodedig. Fodd bynnag, nodir nad yw'r holl safle a neilltuwyd wedi'i gynnwys fel rhan o'r cais hwn, felly gallai nifer yr unedau fodloni'r ffigur a awgrymir yn y dyfodol.

Bydd rhan lawn y cais yn darparu 28 o unedau fforddiadwy a deallir y bydd y datblygiad yn dechrau cyn gynted ag y bo'n bosibl yn ymarferol os rhoddir caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod yr unedau fforddiadwy yn dod yn eu blaen ac yn cael eu darparu, awgrymir y dylai unrhyw ganiatâd fod yn ddarostyngedig i gytundeb S106 sy'n nodi, os na chaiff y datblygiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ei wireddu, bod 20% o gyfanswm yr unedau a ddarperir ar y safle yn unedau fforddiadwy.

Dyluniad, Ymddangosiad, Cynllun a Mannau Agored

Mae'r cynnig yn cynnwys cymysgedd o fyngalos, fflatiau a thai pâr ac felly ceir amrywiaeth o ran nifer y lloriau. Bydd yr unedau byngalo yn adeiladau unllawr tra bydd gweddill yr eiddo, gan gynnwys yr unedau anawsterau dysgu, yn adeiladau deulawr. Gan ystyried y cyd-destun preswyl cyfagos lle ceir cymysgedd o dai deulawr ar wahân a phâr yn bennaf yng Nghefn Esgair, cymysgedd o fyngalos ar wahân a phâr yn Erw Goch, a hefyd y cartref gofal mawr Hafan y Waun, ystyrir bod graddfa a chymeriad y datblygiad yn cyd-fynd â'r ardal gyfagos. Felly mae'n bodloni polisi DM06 y CDLI.

O ran deunyddiau, y bwriad yw defnyddio rendr gydag elfen o gladin pren gyda tho llechi ffibr sment. Ystyrir bod y trefniant arfaethedig yn cyd-fynd â'r ardal gyfagos hefyd.

O ran cynllun rhan lawn y datblygiad, mae'r cynnig yn cynnwys y gerbyttfordd ganolog, y manau wedi'u neilltuo ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy yn ogystal â'r anheddau yng ngham un tuag at ochr fwyaf deheuol y safle. Mae'r anheddau hyn wedi'u cyfeiriadu i ffwrdd o'r ffin orllewinol lle mae'r eiddo agosaf presennol wedi'u lleoli. O'r herwydd, mae digon o bellter yn cael ei gynnal i sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol o ran preifatrwydd ac amwynder yr eiddo presennol, ac mae'r coridor cynefinoedd yn cael ei gynnal er mwyn gallu gwahanu'r safle yn well.

Mae'r cynllun arfaethedig wedi'i lunio i sicrhau bod yr eiddo arfaethedig yn elwa ar lefel uchel o breifatrwydd ac amwynder. Cyflawnir hyn trwy bellteroedd gwahanu digonol, cyfeiriadedd y lleiniau a thriniaethau ffiniau.

Tudalen 25

